# Ystwyll

Geiriau: Cass Meurig
Tôn: Lisa Lân (tradd. tref. Cass Meurig)




1 Rwyf yn dy garu, Iesu cu;
Mor felys yw dy gwmni di
Tydi yw 'mrenin, ti yw 'Nuw,
A hebddot ti ni fynnaf fyw.

2 Pan o'n i'n rhodio'r llwybrau hir,
Goleuaist di fy ffordd yn glir;
Wrth ddilyn d'arwydd di o'r nef,
Agosach wyf at weld dy wedd.

3 Annoeth yr oeddwn ambell waith,
Wrth geisio canfod pen y daith,
Dioddef wnaeth ddiniwed rai,
Ond dal i 'ngalw wyt, er fy mai.

4 Fy rhoddion oll it ti rwy'n dwyn,
A'u rhoi o'th flaen, fy Iesu mwyn,
Ond er i minnau dalu'n ddrud,
Tydi yw trysor mwya'r byd.

5 Fy Iesu annwyl, addolaf di;
Tydi sy'n meddu 'mywyd i;
Dilynaf di, fy annwyl ffrind
Hyd ffordd y groes lle rwyt yn mynd.

©